



LLOYD, HENRY ('Ap Hefin '; 1870 - 1946), bardd ac argraffydd

Enw: Henry Lloyd
Ffugenw: Ap Hefin
Dyddiad geni: 1870
Dyddiad marw: 1946
Priod: Sarah Ann Lloyd (née Gravell)
Rhiant: Margaret Lloyd
Rhiant: David Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd ac argraffydd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Gwilym Richard Tilsley

Ganwyd 23 Mehefin 1870 yn Nhyddyn Ifan, Islaw'r Dref, Dolgellau, Meirionnydd, i David a Margaret Lloyd. Derbyniodd beth addysg yn ysgol Arthog, ond mwy, medd ef, trwy gymdeithasau llenyddol yr eglwysi a'r Temlwyr Da. Symudodd i Gwm Bwlch-coch, Dolgellau, yn 1878. Ar ôl ei brentisio'n argraffydd yn swyddfa'r *Dydd* aeth i Aberdâr yn 1891 yn gysodydd i swyddfa'r *Darian*. Symudodd i Ferthyr yn 1893 i swyddfa'r *Tyst* ac yn 1902 dychwelodd i Aberdâr i swyddfa'r *Darian* a'r *Aberdare Leader*. Yn ddiweddarach sefydlodd ei fusnes argraffu ei hun a pharhau ynddi nes ymddeol yn 1940. Bu'n is-olygydd *Y Tyst* am dros ddeng mlynedd ac yn olygydd *Y Darian* am beth amser. Golygodd golofn farddol *Y Darian* am ugain mlynedd; bu'n athro cerdd dafod, yn gefn cyson i bob mudiad Cymraeg a llenyddol yn ei ardal, yn bregethwr cynorthwyol (EF) am dros hanner canrif ac yn ddarlithydd poblogaidd. Yr oedd yn fardd a ch ynganeddwr medrus iawn, yn enillydd nifer o gadeiriau eisteddfodol a channoedd o wobrwyon. Cyhoeddodd ddeunaw o lyfrau - cofiannau, pregethau, storïau, ond yn bennaf ei gerddi ei hun. Daeth ei englyn i ' Liwiau'r Hydref ' yn adnabyddus, a rhai o'i emynau, megis ' Arhosaf yng nghysgod fy Nuw ' ac ' I bob un sy'n ffyddlon '. Priododd yn 1896 â Sarah Ann Gravell a chawsant bedwar o blant. Bu farw 14 Medi 1946 a'i gladdu ym mynwent Aberdâr.

Awdur

Gwilym Richard Tilsley, (1911 - 1997)

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

[D. Jacob Davies, *Cyfoeth Cwm* (Abercynon 1965) (1965), 91-2

Y Cymro, 23 Ebrill 1938

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, 1946, 36]

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Henry Lloyd](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733151](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Tilsley, G. R., (1997). LLOYD, HENRY ('Ap Hefin '; 1870 - 1946), bardd ac argraffydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-LLOY-HEN-1870>

frannu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government